**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau'r Cynulliad

16 Gorffennaf 2014

Annwyl Aelod o'r Cynulliad

Yn ein trafodaeth am drafnidiaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mawrth, cododd Mohammed Ashgar AC fater pwysig ynghylch trafferthion pobl anabl wrth geisio cael tacsi neu gerbyd hurio preifat yng Nghymru. Cyfeiriwyd yn benodol at godi prisiau rhy uchel ar deithiwr anabl a bod rhai teithwyr yn gorfod talu bron i ddwy waith yn fwy na theithwyr eraill oherwydd eu hanabledd.

Fe wnes i addo y byddwn yn gofyn i'm swyddogion ymchwilio i'r mater hwn a chydweithio â Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a chynrychiolwyr o lywodraeth leol.

Yn dilyn ein hymchwiliadau cychwynnol, da yw cael dweud nad yw'r awdurdodau trwyddedu a ymatebodd i'n cais yn codi cyfraddau uwch ar deithwyr anabl.

Er bod gweithredwyr cerbydau hurio preifat yn gallu gosod eu ffioedd eu hunain, ni chafwyd un achos lle maen nhw'n codi prisiau rhy uchel am gario pobl anabl.

O'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n cais am wybodaeth, dywedodd 16 ohonynt eu bod wedi cael 41 o gwynion dros y ddwy flynedd ddiwethaf ynghylch tacsis a cherbydau hurio preifat.  Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â'r ffaith nad oes digon o gerbydau addas ar gael h.y. diffyg cerbydau sydd â rampiau a strapiau diogelwch ynddyn nhw, yn hytrach na chwynion ynghylch codi prisiau uwch ar y teithiwr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Ond, roedd yr adolygiad yn tynnu sylw hefyd at dystiolaeth anecdotaidd bod y gweithredwyr mewn rhai rhannau o Gymru yn amharod i gario pobl anabl ac mae niferoedd y tacsis a'r cerbydau hurio preifat addas sydd ar gael yn amrywio'n fawr ar draws Cymru.  Mae'n ymddangos nad codi prisiau rhy uchel ar deithwyr anabl yw'r broblem fwyaf wedi'r cyfan.

O ganlyniad, rwyf wedi ysgrifennu at arweinwyr awdurdodau lleol Cymru yn eu hatgoffa o'r canlynol:

- cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth ganllawiau yn 2010 ynghylch tacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig sy'n cyfeirio'n benodol at y ffioedd a godir ar deithwyr a pha mor hawdd yw hi i bobl anabl gael tacsi

- mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus Cymru gyflawni eu swyddogaethau yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.  Mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys amcanion fel rhan o'u cynlluniau cydraddoldeb strategol a chasglu gwybodaeth berthnasol

- mae angen gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a sicrhau bod y teithiwr yn gwybod sut i fynd ati i wneud cwyn os ydyn nhw'n teimlo bod tacsi neu'r cerbyd hurio preifat wedi codi gormod arnyn nhw.